Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Bwyd a Diod (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019** |
| **DYDDIAD** | **7 Awst 2019** |
| **GAN** | **Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd** |

**Y Gyfraith sy'n cael ei diwygio**

- Rheoliad (EU) rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ddarparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 2018/273 yn ategu Rheoliad (UE) rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â'r cynllun ar gyfer awdurdodau i blannu gwinllannoedd, y gofrestr o winllannoedd, y dogfennau cysylltiedig a'r ardystiadau, y gofrestr o fewnforion ac allforion, datganiadau gorfodol, hysbysiadau a chyhoeddi gwybodaeth yr hysbyswyd amdani, ac yn ategu Rheoliad (UE) rhif 1306/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor mewn perthynas â'r gwiriadau a'r cosbau penodol

**Diben y Rheoliadau**

Yn bennaf mae Rheoliadau 2019 yn diwygio deddfwriaeth gwin, ond hefyd maent yn gwneud mân ddiwygiadau i reolau gwybodaeth am fwyd. Bydd Rheoliadau 2019 yn gwneud y newidiadau sydd eu hangen i reoliadau'r UE i sicrhau bod y cyfreithiau yn y maes hwn yn parhau i weithredu ar ôl i'r DU adael yr UE. Byddant yn gwneud newidiadau amrywiol i sicrhau bod darpariaethau sy'n ymwneud â masnachu gwin, monitro cynhyrchu a chynnal cofnodion yn parhau i weithredu'r gywir ar ôl inni ymadael.

Byddant yn sicrhau bod y cyfrifoldeb am fonitro a rheolaethau'n cael eu hailddyrannu yn briodol.

Byddant hefyd yn amlinellu'r newidiadau amrywiol a fydd yn adlewyrchu'r rhyngddibyniaethau â deddfwriaeth arall, yn bennaf y ddeddfwriaeth a wnaed gan CThEM i sicrhau bod rheolaethau tollau'n gweithredu'n gywir ar ôl iddynt gael eu trosglwyddo o Undeb Tollau Sengl i reolaethau tollau sy'n benodol i'r DU.

Mae'r Rheoliadau a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith y diwygiadau, i'w gweld yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae Rheoliadau 2019 yn trosglwyddo rhai swyddogaethau cyfyngedig i'r Ysgrifennydd Gwladol, y gellir eu harfer ar lefel y DU gyfan. Mewn perthynas â Chymru, ni ellir arfer y swyddogaethau sy'n cael eu trosglwyddo i'r Ysgrifennydd Gwladol yng Nghymru ond â chydsyniad Gweinidogion Cymru. Mae'n briodol bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn ymgymryd â'r swyddogaethau hyn ar lefel y DU gyfan, gan eu bod yn trosglwyddo rôl sy'n gofyn am un corff cydlynu sengl ar gyfer y DU gyfan.

Mae'r swyddogaethau, sydd wedi eu trosglwyddo fel y gellir eu harfer gan yr Ysgrifennydd Gwladol gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru, yn swyddogaethau Gweinidog y Goron at ddibenion paragraff 11(2) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n ofynnol ymgynghori â Gweinidog priodol Llywodraeth y DU ynghylch unrhyw Bil yn y Cynlluniad sy'n ceisio dileu neu addasu swyddogaethau o'r fath.

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru ar faterion sy'n gysylltiedig â gwin a rheolau gwybodaeth am fwyd am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r Rheoliadau yn gwneud nifer o newidiadau technegol, ac yn ategu cywiriadau eraill a gafodd eu cynnwys mewn OS cynharach ar gyfer ymadael â'r UE (Rheoliadau Bwyd, Diod, Meddyginiaethau a Gweddillion Milfeddygol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2019), gan sicrhau bod diffygion wedi cael eu llawn gywiro. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.